**PENODI AELODAU ANNIBYNNOL**
**I IS - BWYLLGOR SAFONAU CYD BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**<u>Aelodau Annibynnol – Nodweddion</u>**

Bydd gwaith y Pwyllgor yn golygu bod yn rhaid i'r aelodau annibynnol feddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:-

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

Nid oes angen gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai o fantais pe bai diddordeb gan ddarpar ymgeiswyr mewn materion sy'n berthnasol i fywyd a gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, y mae'n rhaid i aelodau annibynnol:-

- Fod yn gymwys i gael eu dethol yn aelod annibynnol (*gweler isod am bwy <u>na</u> all fod yn aelod annibynnol*)*.
- Fod yn uchel eu parch o fewn y gymuned:
- Allu rhoi'r amser angenrheidiol i'r dyletswyddau a bod ar gael ar fyr rybudd;
- Allu darparu dau dystlythyr.

Cymerir i ystyriaeth cael cydbwysedd sgiliau, rhinweddau a medrusrwydd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r rhanbarth a'i chymunedau yn gyfan gwbl a chyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol.

**<u>Y Drefn Penodi</u>**

Bydd y Panel Ymgynghorol yn cyfweld pob ymgeisydd. Bydd aelodaeth y Panel yn cynnwys:

Cadeirydd y Cyd Bwyllgor Corfforedig
Is Gadeirydd y Cyd Bwyllgor Corfforedig
"Aelod Lleyg" - (diffinnir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd)

Cynghorir y Panel gan Swyddog Monitro y CBC

Bydd wedyn yn cyflwyno ei argymhellion i gyfarfod o'r Cyd Bwyllgor Corfforedig a fydd yn gwneud y penodiad.